**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

31 Ionawr 2024

Annwyl Eluned,

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023

Yn ein cyfarfod ar 22 Ionawr 2024, gwnaethom drafod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) (Diwygio) 2023 (y Rheoliadau diwygio).

Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi trafod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023 ("y Prif Reoliadau") ar 25 Medi 2023. Gwnaed y Rheoliadau diwygio i gywiro gwallau o natur dechnegol, a nodwyd gennym yn ein hadroddiad ar y Prif Reoliadau.

Roedd ein hadroddiad ar y Rheoliadau diwygio yn cynnwys wyth pwynt technegol a dau bwynt adrodd o ran rhinweddau; roedd saith o'r pwyntiau adrodd technegol yn tynnu sylw at faterion lle'r oeddem o'r farn bod drafftio'r is-ddeddfwriaeth yn ymddangos yn ddiffygiol, neu ei bod yn methu â bodloni gofynion statudol. Yn ogystal, mae pwynt adrodd 9 (y cyntaf o'n pwyntiau rhinweddau) yn tynnu sylw at y ffaith nad yw dau fater a godwyd gennym yn ein hadroddiad ar y Prif Reoliadau wedi'u cywiro yn y Rheoliadau diwygio ac felly mae'r gwallau yn parhau i fod yn y gyfraith.

Yn ein cyfarfod ar 29 Ionawr 2024, gwnaethom ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar y Rheoliadau diwygio.

Mewn ymateb i bedwar o'r pwyntiau adrodd, dywedwyd wrthym y bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Prif Reoliadau ymhellach pan fydd y cyfle'n codi. Efallai y byddwch yn gwerthfawrogi pryder fy Mhwyllgor fod hon yn sefyllfa lai na delfrydol, o gofio bod angen y Rheoliadau diwygio hyn i gywiro gwallau yn y Prif Reoliadau, ac erbyn hyn mae angen rheoliadau diwygio pellach cyn y bydd y gyfraith yn glir.

Ar ben hynny, mewn ymateb i ddau o'n pwyntiau adrodd, dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr OSau ynghylch y posibilrwydd o ddatrys y materion drwy slip cywiro.

O ystyried ein bod wedi cael ein cynghori yn y gorffennol gan y Cwnsler Cyffredinol y byddai slipiau cywiro yn cael eu defnyddio i fynd i'r afael â gwallau bach a/neu amlwg a lle byddai testun a lleoliad y cywiriadau yr un mor fach ac amlwg, byddem yn croesawu eglurhad ynghylch sut y gallai'r materion a nodwyd ym mhwyntiau adrodd 1 a 9 fodloni'r meini prawf hyn.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ysgrifennu at fy Mhwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau a gynhaliwyd gyda Chofrestrydd yr OSau, a hefyd yn cadarnhau pa faterion a nodwyd yn ein hadroddiad ar y Rheoliadau diwygiedig a fydd yn cael sylw drwy slip cywiro ac a fydd angen aros i'r rheoliadau diwygio pellach gael eu gwneud.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ateb erbyn dydd Mercher 14 Chwefror 2024.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd